


Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

# ASTUDIAETH S4S, THEATRAU ABERHONDDU, SYSTEM RHEOLI STOCRESTRAU EIDDO

Ym mis Mehefin 2021, cymeradwyodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol achos busnes llawn a buddsoddiad cysylltiedig fel y camau cyntaf tuag at ymgorffori egwyddorion ac arferion Sganio er Diogelwch ledled Cymru.

Mae diogelwch cleifion wrth wraidd y rhaglen ac mae safonau data a thechnoleg cipio data yn cael eu cyflwyno ledled GIG Cymru.

Awtomeiddio'r cyswllt o
**Gynhyrchion, Lleoedd a Phobl a nodwyd yn unigryw.**



Bydd yn helpu i atal niwed i gleifion gyda data amser real yn y pwynt gofal, ac fe fydd hefyd yn darparu'r gallu i olrhain dyfeisiau meddygol wedi'u mewnblannu ar unwaith pe bai angen galw claf yn ôl.

Yn sail i'r Rhaglen mae contract wedi'i lofnodi ag Omnicell ar gyfer Datrysiad Rheoli Stocrestrau (SupplyX) sy'n defnyddio'r safonau hyn a thechnoleg sganio â llaw i danategu'r manteision uchod. Mae'r buddion a ddaw o optimeiddio'r stocrestrau yn rhan annatod o SupplyX. Maen nhw hefyd yn golygu bod y gwaith archebu ac ailgyflenwi stoc yn llai beichus o lawer ac yn rhyddhau amser clinigol er mwyn gofalu am gleifion.

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Powys Teaching Health Board

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau | Shared Services Partnership

# Pam Newid?

**Archebu Cynnyrch**

Roedd Theatrau Aberhonddu yn archebu trwy Oracle gyda rhestrau papur a dim lefelau stoc wedi'u cytuno ymlaen llaw, roedd y wybodaeth archebu hon yn seiliedig ar wybodaeth etifeddiaeth a drosglwyddwyd o un person i'r llall.

**Lleoliadau Storio**

Nid oedd gan y lleoliadau storfa addas a arweiniodd at stordai blêr ac anhrefnus, a dealltwriaeth wael o ba stoc y maent yn ei gadw ac ymhle.

**Cofnodi**

Nid oedd systemau label ymyl silff ar gyfer adnabod cynnyrch na gwybodaeth am gynnyrch (maint uned, cod gweithgynhyrchu ac ati). Roedd hyn wedi arwain at rywfaint o or-archebu gan nad oedd unrhyw stoc gyfredol wedi'i labelu'n glir.

**Lleoliad Cynnyrch**

Gan fod gor-archebu wedi digwydd, arweiniodd hyn at risg iechyd a diogelwch uwch ynghylch storio nwyddau (eitemau ar y llawr heb eu rheseli neu mewn datrysiadau storio) a chyflwynodd risg wirioneddol i ddiogelwch staff.

*Mae'r ddelwedd isod yn dangos storfeydd di-drefn cyn gweithredu'r newid.*






GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Powys Teaching Health Board

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau | Shared Services Partnership



## Y camau a gymerwyd

- Crëwyd tîm prosiect Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cynnwys arweinwyr: Clinigol, Omnicell, Cadwyn Gyflenwi, TG, Digidol, Caffael a Chyllid; Yn ogystal â Phartner Busnes Sganio er Diogelwch sy'n benodol i'r sefydliad.

- Darparwyd setiau llaw SupplyX a'u cyflunio i'w defnyddio yn amgylchedd yr ysbyty gyda chymorth tîm TG Powys.

- Roedd System Rheoli Stocrestrau SupplyX (IMS) wedi'i ffurfweddu gyda'r holl gynhyrchion angenrheidiol a lefelau stoc Par. Cytunwyd ar y rhain ar lefel glinigol a'u cymeradwyo gan y deiliad cyllideb perthnasol.

- Crëwyd rhyngwyneb rhwng SupplyX ac Oracle i ganiatáu ar gyfer archebu awtomataidd.

- Hyfforddi Tîm y Theatrau:
  - Ail-archebu
  - Ailstocio a derbyn cynhyrchion.
  - Cyfrif cylchol ar gyfer taliadau stoc cywir.

- Cwblhawyd y profion data a chyfrif stoc terfynol cyn i'r system fynd yn fyw.

# Buddion

- System Rheoli Stocrestrau Eiddo o'r Dechrau i'r Diwedd (IMS) ar gyfer archebu a derbynebau.
- Osgoi cost untro ac am byth o £96,380.20 mewn optimeiddio stoc
- Yn ogystal ag optimeiddio stoc, amcangyfrifir bod 522 awr o oriau clinigol wedi'u harbed.
- Catalog o dros 74,000 o gynnyrch ar gael ar SupplyX.
- Bellach mae gan Theatr Aberhonddu dros 750 o gynhyrchion y gellir eu harchebu drwy ddefnyddio SupplyX.
- Cynnwys catalog o dros 95% ar gyfer archebion Theatr Aberhonddu.
- Cyfarfod gweithgor wedi'i drefnu ar gyfer diweddariadau cynnydd, camau nesaf a’r camau gweithredu oedd wedi eu nodi.
- Eisoes yn gweithio ar brosiect gweithredu Llandrindod gyda chefnogaeth grŵp Prosiect Powys.
- Storfeydd glân a thaclus, a phob cynnyrch wedi’i labelu gyda’r lleoliad.
- Gwirio stoc yn rheolaidd gan ddefnyddio dyfeisiau'r ffôn.
- Gwastraff o dros £10,000 wedi’i nodi cyn gweithredu, a’r gallu i olrhain pob math o wastraff ar ôl ei weithredu.

*Mae'r llun isod yn dangos gwell storfeydd ar ôl gweithredu*



GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys / Powys Teaching Health Board

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau / Shared Services Partnership

# Rheseli Aberhonddu

Fel rhan o weithredu System Rheoli Stocrestrau SupplyX (IMS), nodwyd bod angen diweddariad i system storio Theatrau ac felly llwyddwyd i wneud hynny.

Gyda chefnogaeth y Bwrdd Iechyd dyfarnwyd tendr yn llwyddiannus a gwnaed gwaith i ddiweddaru'r system storio i ddiwallu anghenion datrysiad storio Theatrau.

Cafodd y costau datrysiadau storio eu gwrthbwyso yn erbyn buddion gweithredu SupplyX ac fe'i hariannwyd gan y Bwrdd Iechyd lleol.





**Cyn:**

- Ystafelloedd stoc blêr
- Dim cartref penodol ar gyfer stoc
- Dim labelu clir
- Oedi cyn dod o hyd i stoc oherwydd annibendod
- Risg o stoc ar goll a gor-archebu
- Risg i ddiogelwch cleifion

# Rheseli Aberhonddu

## Ar ôl

- Storfeydd glân a thaclus
- Lle i bopeth a phopeth yn ei le
- Labelu cod lliw clir ar gyfer gwell adnabyddiaeth stoc
- Gwell effeithlonrwydd archebu
- Gwell diogelwch cleifion gan fod modd dod o hyd i gynhyrchion yn hawdd ac yn gyflym erbyn hyn.




*Ers cyflwyno'r system SupplyX rydym wedi sylwi ar fanteision enfawr i'r staff, gan gynnwys* ***archebu yn cymryd llai o amser*** *a* ***rheoli stoc yn well.*** *I helpu gyda hyn rydym wedi gosod rheseli newydd yn yr adran yn Aberhonddu. Mae hyn wedi ein galluogi i wahanu gwahanol arbenigeddau, cael labelu wedi'u diffinio'n glir ac mae'n gwneud y defnydd o'r system SupplyX yn llawer haws, gan fod gan y droriau unigol eu labeli eu hunain. Gan fod gennym staff newydd yn cychwyn, maent yn ei chael yn llawer* ***haws dod o hyd i eitemau*** *gyda'r rheseli newydd yn eu lle ac mae* ***llai o amser yn cael ei dreulio'n chwilio am eitemau.***

**Philip Hobbs**

**Rheolwr Theatr/**
**Arweinydd Proffesiynol ODP BIAP**

# Casgliad




Parhaodd PCGC a'r Bwrdd Iechyd i fuddsoddi ym mhrosiect gweithredu SupplyX ac mae y Rhaglen Sganio er Diogelwch wedi galluogi swyddogaeth Cadwyn Gyflenwi PCGC i ddarparu gwasanaeth effeithlon a chefnogi'r Bwrdd Iechyd i wella canlyniadau i gleifion. Mae hyn wedi arwain at ryddhau ragor o amser clinigol i ofalu am gleifion.

Mae'r prosiect wedi llwyddo i osgoi costau arbedion yn ogystal â buddion ariannol eraill. Mae SupplyX IMS wedi rhoi gwell dealltwriaeth i'r theatrau a thimau ehangach y Byrddau Iechyd o'r stoc sydd ganddynt, lleoliadau eu stoc a'r gwariant sy'n digwydd yn y theatr, sy'n golygu bod y cynnyrch iawn yn y lle iawn ar yr adeg iawn.

Wrth i'r prosiect dyfu i gynnwys safleoedd/lleoliadau eraill, bydd y ddealltwriaeth a'r gweledled hwn o stoc yn cynyddu. Mae'r IMS wedi galluogi'r staff i archebu'r holl stoc drwy ddefnyddio dyfais llaw, a chyflymu'r broses archebu. Mae hefyd wedi eu galluogi i dderbyn gan ddefnyddio'r system hon, fel nad oes angen mewngofnodi i Oracle bellach i dderbyn.

# Gwersi a Ddysgwyd

## Ymgysylltu

Er mwyn sicrhau llwyddiant, rhaid cynnwys y tîm clinigol yn y prosiect.

## Hyfforddiant

Rhaid ystyried argaeledd staff i sicrhau eu bod yn cael eu hyfforddi a chael y cyfle i drafod unrhyw ymholiadau.

## Ymrwymiad

Bydd angen neilltuo amser ac adnoddau o bosibl i'r prosiect er mwyn sicrhau y bydd yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus ac y bydd yr adran yn gallu elwa ar fuddion y dyfodol.

## Cyfathrebu

Mae'n bwysig bod yr adran glinigol a'r partner busnes yn cyfathrebu'n gyson er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau'n cael eu diweddaru (staff newydd, lleoliadau storfeydd, cynhyrchion, ac ati).

## Data

Rhaid i archwiliadau stoc a chytundebau stoc llwyth fod ar gael i sefydlu a chytuno ar gynhyrchion y mae angen eu rheoli ynghyd â lefelau PAR.

## Y Camau Nesaf...

### Sefydlu IMS Llandrindod

- Gweithredu yn y 3 lleoliad cysylltiedig (Theatrau, Adfer ac Anestheteg) yn Llandrindod.
- Ad-drefnu a thacluso'r ardaloedd stoc presennol.
- System labelu a lleoli wedi'i sefydlu ar gyfer yr holl stoc a gedwir yn y theatr.
- Cefnogaeth barhaus gyda'r archebu gan ddefnyddio'r System Rheoli Stocrestrau SupplyX (IMS) newydd
- Cyflenwi adeiladu cronfa ddata X.
- Hyfforddiant staff ar y System Rheoli Stocrestrau SystemX (IMS) yn ogystal â'r system Sganio er Diogelwch yn Llandrindod.



## Manylion Cyswllt

**Ashley Tomlinson**
Partner Busnes Logisteg a Rheoli Deunyddiau, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

ashley.tomlinson2@wales.nhs.uk

**S4S PCGC**
ScanforSafetyWales@wales.nhs.uk

https://pcgc.gig.cymru/rhaglenni-cymru-gyfan/croeso-i-sganioerdiogelwch-cymru/